## PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

## BLAENRAGLEN WAITH STRATEGOL

### Mater

1. Ceisio cael barn y Pwyllgor ar y flaenraglen waith ddiwygiedig.

### Argymhellion

2. Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried y flaenraglen waith amgaeedig.

### Cefndir

3. Mae’n ofynnol o dan Reol Sefydlog 9.9 fod pob pwyllgor pwnc yn cynnal rhaglenni gwaith treigl a fydd yn cynnwys cyfnodau o 12 mis o leiaf ac i gysylltu â phwyllgorau eraill a Chabinet y Cynulliad ar y rhaglen cyn hysbysu’r Cyfarfod Llawn. Dogfen strategol yw’r flaenraglen waith, sy’n nodi blaenoriaethau cyffredinol y Pwyllgor ar gyfer y 18 i 24 mis nesaf, ac fe’i hategir gan flaenraglen waith mwy manwl.

4. Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i flaenraglen waith ddrafft yn ei gyfarfod ar 24 Ionawr (gweler papur LGH-01-01 (p6)). Ar ôl hynny cyflwynwyd y rhaglen waith i bwyllgorau pwnc eraill a Chabinet y Cynulliad. Ychydig iawn o newidiadau a ddeilliodd o hynny. Nododd rhai pwyllgorau pwnc faterion a oedd o ddiddordeb iddynt gan ofyn a fyddai modd iddynt gael eu hysbysu o hynt y gwaith. Awgrymodd y Cabinet y dylid adlewyrchu’r gwaith o gyflwyno strategaethau cymunedol ac ystyried rôl awdurdodau lleol wrth arwain cymunedau yn y rhestr blaenoriaethau’r Pwyllgor (a oedd eisoes yn nodi moderneiddio llywodraeth leol fel blaenoriaeth). Dywedwyd hefyd bod angen i’r Pwyllgor adolygu’r broses o roi’r Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol ar waith.

5. Mae’r rhaglen waith yn cydnabod cynlluniau’r Pwyllgor i gynnal adolygiad polisi ar adfywio cymunedol ar ôl cwblhau’r arolwg o drosglwyddo stoc tai.

6. Yn amodol ar farn y Pwyllgor ar y drafft diwygiedig, cyflwynir y flaenraglen waith, ynghyd ag adroddiad y Pwyllgor ar hynt y gwaith, i’w drafod yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Mai.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor** **Ebrill 2001**

**PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

**BLAENRAGLEN WAITH: MAI 2001 - RHAGFYR 2001**

**Cyflwyniad**

1. Mae'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn un o saith pwyllgor pwnc y Cynulliad. Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn cydfynd â chylch gwaith Edwina Hart, Gweinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau. Mae polisïau ei gylch gwaith yn cynwys llywodraeth leol a materion cyllid, tai, adfywio trefol ac atal troseddu. Nid yw, fodd bynnag, yn mynd i'r afael â chyfrifoldebau Edwina Hart fel Gweinidog Cyllid.

2. Rhestrir cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc yn y Rheolau Sefydlog, ac fe'i hatgynhyrchir yn **Atodiad 1.**

3. Mae'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 9.9 fod pob pwyllgor pwnc yn cynnal rhaglenni gwaith treigl a fydd yn cynnwys cyfnodau o 12 mis o leiaf. Rhaid i'r Pwyllgor drafod y rhaglen â phwyllgorau eraill a Chabinet y Cynulliad cyn hysbysu'r Cynulliad mewn cyfarfod llawn.

4. Mae'r Panel Cadeiryddion wedi cytuno y dylai rhaglenni gwaith y pwyllgorau fod yn strategol ac y dylent gynnwys cyfnod o rhwng 18 a 24 mis. Cefnogir y rhaglen strategol hon gan raglen fanylach sy'n mynd i'r afael â chyfnod o dri mis o leiaf.

**Nodau ac amcanion**

5. Nod y Pwyllgor yw llwyddo i gael gwell ansawdd bywyd ar gyfer pobl Cymru ac i hybu gwell llywodraeth a llywodraeth symlach. Dyma'i amcanion:

- Helpu pobl leol, yn arbennig y rhai hynny sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig, i ddatblygu cymunedau hyderus, gyda chartrefi gweddus, cyfleusterau lleol da ac amgylchedd o ansawdd uchel, sy'n anfygythiol a heb drosedd;
- Darparu gwerth am arian ar gyfer pobl Cymru, gyda gwasanaethau gwell a mwy effeithlon;
- Symleiddio gwaith y Cynulliad a rhoi llawer mwy o bwyslais ar anghenion a barn ein partneriaid a'r cyhoedd, gan gynnwys grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n deg.

6. Mae'r nodau a'r amcanion hyn yn cydfynd â'r rhai a bennwyd yn *Gwellcymru.com*, cynllun strategol y Cynulliad.

**Blaenoriaethau**

7. Wrth geisio mynd i'r afael â'i gyfrifoldeb o gyfrannu at ddatblygu polisïau (Rheol Sefydlog 9.7 (i)), mae'r Pwyllgor yn rhoi llawer o bwyslais ar:

- Ddatblygu strategaeth dai genedlaethol, gyda'r bwriad o sicrhau bod gan bawb gartrefi gweddus a chael gwared ar ddigartrefedd;
- Moderneiddio llywodraeth leol, gan gynnwys datblygu strwythurau rheoli gwleidyddol newydd, datblygu cytundebau polisi gyda llywodraeth leol a rhoi'r gyfundrefn gwerth gorau ar waith, cyflwyno strategaethau cymunedol ac ystyried rôl arweinyddiaeth gymunedol awdurdodau lleol;

- Mabwysiadu fformiwla asesiad o wariant safonol diwygiedig, fel bod y cymorth refeniw ar gyfer awdurdodau lleol yn cael ei ddyrannu ar sail asesiad tecach o anghenion.

8. Bydd y Pwyllgor yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ddatblygu amryw o'r materion sy'n cael eu nodi ym Mhennod 4 *gwellcymru.com* i'w gweithredu'n fuan. Rhestrir y rhain yn **Atodiad 2**.

9. Hyd yma, mae'r Pwyllgor wedi rhoi blaenoriaeth i gyfrannu i ddatblygiad strategaethau a mentrau sy'n datblygu ar draws ystod lawn cyfrifoldebau'r Gweinidog dros lywodraeth leol a thai. Mae hefyd wedi cynnal adolygiad o'r polisi o drosglwyddo tai'r awdurdodau lleol i berchenogaeth gymunedol, a bydd y cyfarfod llawn yn ystyried yr adroddiad yn fuan. Mae'r adolygiad wedi archwilio'r model perchenogaeth gymunedol sy'n dod i'r amlwg, yn ogystal â materion ehangach megis p'un ag y gallai dulliau gwahanol gynhyrchu'r arian sy'n angenrheidiol i oresgyn yr ôl-groniad o'r gwaith hanfodol i atgyweirio a moderneiddio tai cyngor.

10. Yn dilyn adolygu'r polisi o drosglwyddo'r stoc dai, mae'r Pwyllgor yn bwriadu cynnal adolygiad o rôl y grwpiau cymunedol wrth adfywio cymunedau. Mae'r union gylch gorchwyl ar gyfer yr adolygiad yn cael ei ddatblygu, gan ystyried y gwaith a gyflawnwyd eisoes yng nghyd-destun cysyniad *Rhoi Cymunedau'n Gyntaf.* Un maes y gellir ei archwilio yw'r sgôp ar gyfer symleiddio rhaglenni adfywio cymunedol presennol a sut y gellir gwella'r trefniadau ar gyfer gwneud hynny.

11. Bob blwyddyn bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried adroddiad sy'n adolygu'r modd y gweithredir y Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol, cyn i'r cyfarfod llawn ystyried yr adroddiad.

**Materion eraill**

12. Bydd angen i'r Pwyllgor hefyd:

- ystyried cynigion ar gyfer cyllideb y Cynulliad (Rheol Sefydlog 9.8 (ii));
- ystyried is-ddeddfwriaeth fel bo'n briodol (Rheol Sefydlog 9.8 (i) / 22);
- archwilio gwaith yr Ysgrifennydd Cynulliad (Rheol Sefydlog 9.11);
- adolygu materion trawsbynciol megis cyfle cyfartal a datblygu cynaliadwy.

**Dull o weithio**

13. Wrth fynd i'r afael â'i raglen waith, mae'r Pwyllgor yn bwriadu mabwysiadu ffordd agored a chyfranogol o weithio. Bydd yn gweithio'n glòs â holl bartneriaid y Cynulliad yn y sectorau cyhoeddus, preifat, a gwirfoddol yn enwedig y rheini mewn llywodraeth leol. Bydd y Pwyllgor yn parhau i ddatblygu ei berthynas â'r Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol.

**Rhaglen waith fanwl**

14. Mae rhaglen waith fanwl y Pwyllgor ar gyfer gweddill 2001 wedi'i hamgáu yn **Atodiad 3.**

**Atodiad 1**

**RÔL Y PWYLLGORAU PWNC**

**DYFYNIAD O'R RHEOLAU SEFYDLOG**

9.7 Bydd pob pwyllgor pwnc

(i) yn cyfrannu at ddatblygu polisïau'r Cynulliad o fewn y meysydd y mae'r Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol yn atebol i'r Cynulliad amdanynt;

(ii) yn cadw llygad ar y gwariant a'r weinyddiaeth sy'n gysylltiedig â'u gweithredu; a

(iii) yn cadw llygad ar waith cyflawni'r swyddogaethau cyhoeddus yn y meysydd hynny gan gyrff cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat.

9.8 O fewn y meysydd perthnasol, bydd pob pwyllgor pwnc hefyd:

(i) yn cynghori ar ddeddfwriaeth arfaethedig a fydd yn effeithio ar Gymru, gan gynnwys cyflawni ei swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 22;

(ii) yn rhoi cyngor i Gabinet y Cynulliad ar faterion sy'n ymwneud â dyrannu cyllideb y Cynulliad yn unol â Rheol Sefydlog 19;

(iii) yn cyflawni ei swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 21 (cwynion);

(iv) yn cyflawni unrhyw swyddogaethau a neilltuir iddo o dan y Cod Ymarfer ar Weithdrefn Penodiadau Cyhoeddus a wneir gan y Cynulliad o dan Reol Sefydlog 20; a

(v) yn ystyried materion y bydd y Cynulliad yn eu cyfeirio ato o fewn ei feysydd.

Atodiad 2

## gwellcymru.com: MATERION I’W RHOI AR WAITH YN FUAN

### Tabl 7: Gwell ansawdd bywyd

**' Helpu pobl leol, yn arbennig y rhai hynny sy’n byw mewn ardaloedd difreintiedig, i ddatblygu cymunedau hyderus gyda chartrefi gweddus, cyfleusterau lleol da ac amgylchedd o ansawdd uchel, sy’n anfygythiol a heb drosedd’**

- *Rhoi Cymunedau’n Gyntaf* - gweithredu cymunedol i wella ein cymunedau mwyaf difreintiedig
- Gostwng cyfran y bobl sy’n bryderus ynghylch diogelwch ar y ffyrdd o dan lefel 1998 o 11%, trwy gefnogi Partneriaethau Trosedd ac Anhrefn lleol, y Rhaglen Lleihau Trosedd a strategaethau datblygu cymunedol eraill
- Lleihau’r temtasiwn i bobl ifanc ymwneud ag ymddygiad gwrth-gymdeithasol trwy ddefnyddio’r £25 miliwn yn y Gronfa Partneriaeth Plant ac Ieuenctid i ddarparu gweithgareddau adeiladol
- Lleihau nifer y tai â phreswylwyr ynddynt sydd mewn cyflwr difrifol wael i lai na 4% o’r stoc erbyn 2002, ac ehangu’r cynllun Gofal a Thrwsio i bob rhan o Gymru
- Defnyddio mwy o gyllid preifat i wella stadau tai o ansawdd gwael; sicrhau bod yr holl dai cymdeithasol newydd o ansawdd da, gyda safonau diogelwch uchel, eu bod yn defnyddio ynni’n effeithlon ac yn cael eu lleoli mewn amgylchedd deniadol, anfygythiol gyda’r bwriad o leihau trosedd

- Gostwng cyfran y tai cymdeithasol gwag i lai na 3%, sicrhau bod llai na 500 o deuluoedd digartref yn byw mewn llety dros dro, a dileu’r angen am gysgu allan

- Cynnwys 30,000 o deuluoedd ar fudd-daliadau incwm neu anabledd sy’n dioddef "tlodi tanwydd" yn y cynllun newydd ar gyfer Defnyddio Ynni’n Effeithlon yn y Cartref

**Tabl 9: Gwell Llywodraeth, Llywodraeth Symlach**

**‘Darparu gwerth am arian ar gyfer pobl Cymru, gyda gwasanaethau gwell a mwy effeithlon’**

- Gwneud cynghorau lleol yn fwy atebol ac ymatebol, a’u cynorthwyo i wneud gwell penderfyniadau trwy weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddatblygu trefniadau rheoli gwleidyddol newydd, erbyn mis Ebrill 2001

- Datblygu’r Cytundebau Polisi cyntaf rhwng y Cynulliad a’r holl awdurdodau lleol a’u rhoi ar waith erbyn mis Ebrill 2001: dylid gosod y Cytundebau o fewn fframwaith cenedlaethol a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a dylent ganolbwyntio ar y gwelliannau penodol, y gellir eu mesur, sydd eu hangen i gyflawni amcanion polisi cyffredin

- Sicrhau y cynhelir adolygiadau gwerth gorau o 50% o wasanaethau awdurdodau lleol, gydag arolygon gwerth gorau yn dangos bod safonau’r gwasanaethau’n gwella. Sicrhau nad oes yr un gwasanaeth a ddarperir yn uniongyrchol gan awdurdod lleol yn rhedeg ar ddiffyg ariannol erbyn mis Mawrth 2002

- Sefydlu fformwla tecach ar gyfer dosbarthu grant cynnal refeniw i awdurdodau lleol o fis Ebrill 2001

**' Symleiddio’n gwaith a rhoi llawer mwy o bwyslais ar anghenion a barn ein partneriaid a’r cyhoedd, gan gynnwys grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli’n deg’**

- Ehangu rôl y Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru i gynnwys gweithredu fel Ombwdsmon Tai ar gyfer landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac fel Bwrdd Safonau ar gyfer llywodraeth leol erbyn 2001

- Cydlynu gwasanaethau lleol yn well trwy weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gytuno ar fframwaith ar gyfer cynllunio cymunedol (sy’n cydfynd â’u strategaethau Agenda Leol 21) erbyn mis Ebrill 2001, a chwblhau arolwg o’r ddyletswydd ar gynghorau i gynhyrchu cynlluniau, o fewn yr un amserlen